



# Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

## AHRC – CYFLEOEDD CYLLID TREFTADAETH A RHAGLENNI A GWEITHGAREDDAU ALLWEDDOL

Jamie Davies, Rheolwr Partneriaethau Rhyngwladol ac Ymgysylltu, [Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau](#)

Mae Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC) y DU yn rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, corff newydd sy'n gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion, sefydliadau ymchwil, busnesau, elusennau a'r llywodraeth i greu'r amgylchedd gorau posibl ar gyfer ymchwil ac arloesedd. Gan weithredu dros y cyfan o'r DU, gyda chyllideb gyfunol o fwy na £6 biliwn, mae Ymchwil ac Arloesedd y DU yn dwyn ynghyd y saith Cyngor Ymchwil, Innovate UK a sefydliad newydd, Research England. Caiff ei ariannu'n bennaf gan Adran Busnes, Egni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) Llywodraeth y DU. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu'r Cyngor yn adeiladu ar ei fuddsoddiadau blaenorol ac yn cryfhau ei waith ym maes treftadaeth drwy ffurfio partneriaethau ag asiantaethau eraill, targedu cyllid, a sefydlu mentrau cydweithredol yn y DU ac yn rhyngwladol. Yn y cyflwyniad byr hwn, eglurir y cyfleoedd cyllid treftadaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ac amlinellir rhaglenni a gweithgareddau allweddol.

### Bywgraffiad

Rheolwr Partneriaethau Rhyngwladol ac Ymgysylltu gyda Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau yw Jamie. Dechreuodd wirfoddoli yn Amgueddfa Môr Llŷn yng Ngogledd-orllewin Cymru pan oedd yn 17 oed a daeth yn aelod o'r pwyllgor ac ymddiriedolwr yn ddiweddarach, gan helpu i ailagor yr amgueddfa yn 2014. Mae ef hefyd yn aelod o bwyllgor Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru ac yn ymddiriedolwr Europa Nostra UK. Rhwng 2016 a 2018 roedd yn gymrawd addysgu mewn treftadaeth ddiwylliannol yn Sefydliad Rhyngwladol Ironbridge, Prifysgol Birmingham. Mae gan Jamie BA mewn Archaeoleg a gradd Meistr mewn Rheolaeth Treftadaeth Ddiwylliannol Ryngwladol gan Brifysgol Durham, a Doethuriaeth ar Addysg mewn Safleoedd Treftadaeth y Byd gan Sefydliad Ironbridge.

[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan  
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.